



Promoting improvements
in policing to make
everyone safer

Pennawd: Pa mor effeithiol mae'r llu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu? – Trosolwg

Mae Heddlu De Cymru'n dda o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu. Mae gan y llu ymagwedd effeithiol tuag at atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Hefyd mae'n effeithiol o ran y ffordd mae'n ymchwilio i droseddau ac yn gwarchod pobl sy'n agored i niwed, yn arbennig dioddefwyr cam-drin domestig. Mae'n dda o ran mynd i'r afael â throseddau difrifol a threfnedig. Mae ganddo'r trefniadau sydd eu hangen yn eu lle i gyflawni ei gyfrifoldebau plismona cenedlaethol a mae wedi asesu pob un o'r bygythion yn y [Gofyniad Plismona Strategol](#). Ein dyfarniad cyffredinol eleni yw'r un peth â llynedd, pan wnaethom ddyfarnu bod y llu'n dda ynghylch effeithiolrwydd.

Mae gan Heddlu De Cymru fodel plismona lleol penodedig a mae'n deall y bygythiad neu'r risg o niwed o fewn y cymunedau mae'n eu gwasanaethu. Mae'r llu'n defnyddio model datrys-problemau ond mae ansawdd y ffordd mae'n cael ei weithredu'n anghyson. Gall swyddogion cymdogaeth ganolbwyntio ar eu rôl blismona gymdogaeth ac nid ydynt yn cael eu symud i ffwrdd i wneud dyletswyddau adweithiol.

Mae gan staff cymdogaeth wybodaeth leol dda o'u cymuned a maent yn ymwybodol o bryderon cymunedol a chudd-wybodaeth ynghylch gweithgarwch troseddol. Mae timau cymdogaeth yn ymgysylltu'n dda â'u cymunedau trwy ddefnyddio amrediad o ddulliau, a mae gan staff lefel uchel o ddealltwriaeth o broblemau lleol Mae gan Heddlu De Cymru ddealltwriaeth dda o natur a graddfa agoredrwydd i niwed a mae'n disgrifio agoredrwydd i niwed fel 'baenoriaeth o flaenoriaethau'. Gall y llu nodi dioddefwyr sy'n agored i niwed a dioddefwyr mynych pan ydynt yn cysylltu â'r llu yn y lle cyntaf, a mae'n defnyddio proses asesu risg i raddio galwadau yn seiliedig ar lefel y bygythiad a'r risg o niwed. Mae'r llu'n dda o ran ymchwilio i droseddau ac yn cadw'r dioddefwr wrth ganol ymchwiliadau. Mae ganddo drefniadau effeithiol yn eu lle i fynd ar ôl troseddwy'r sy'n weddill ac i leihau aildroseddu. Fodd bynnag, mae anghysondebau o ran y ffordd mae'n dewis troseddwy'r ar gyfer ei gynllun integredig i reoli troseddwy'r.

Mae Heddlu De Cymru'n dda o ran mynd i'r afael â throseddau difrifol a threfnedig. Mae grwpiau troseddau trefnedig yn cael eu mapio a'u sgorio'n briodol ac yn gyson trwy ddefnyddio'r offeryn asesu cenedlaethol, a mae'r holl fapio'n gyfredol.